

EVANS, EDGAR (1876 - 1912), fforiwr

Enw: Edgar Evans
Dyddiad geni: 1876
Dyddiad marw: 1912
Priod: Lois Evans (née Beynon)
Plentyn: Norman Edgar Evans
Plentyn: Muriel Evans
Plentyn: Ralph Evans
Rhiant: Charles Evans
Rhiant: Sarah Evans (née Beynon)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: fforiwr
Maes gweithgaredd: Teithio
Awdur: Lyn Owen

Ganwyd Edgar Evans ar 7 Mawrth 1876 yn Fernhill Top Cottage, Middleton ger Rhosili ar Benrhyn Gŵyr, yr hynaf o bedwar o blant Charles Evans, morwr, a'i wraig Sarah (g. Beynon). Symudodd y teulu i Abertawe, lle aeth Edgar i Ysgol y Bechgyn Sain Helen nes oedd yn 13 oed. Gweithiodd wedyn am gyfnod byr yng ngwesty'r Castle ac yn swyddfa'r post Abertawe, ond roedd yn chwennych antur ac yn 1891, yn 15 oed, rhedodd i ffwrdd i ymuno â'r Llynges Frenhinol.

Gwasanaethodd ar nifer o longau, gan gynnwys yn 1897 yr *HMS Majestic*, lle bu iddo gwrdd â Robert Falcon Scott (1868-1912) a oedd yn swyddog torpedos. Daeth y ddau'n gyfeillion, a phan ddechreuodd Scott arwain cyrchoedd i'r Antarctig, gwahoddodd Evans i ymuno ag ef. Bu Evans yn aelod o gyrch cyntaf Scott, '*Discovery*' (enw'r llong a'u cludodd i'r de) rhwng 1901 a 1904. Yn ystod y cyrch hwnnw gwnaeth saith taith fforiwl o'r gweryll cychwyn - dim ond Scott ei hun wnaeth fwy o deithiau. Un o'r rhieni oedd taith gar llusg hir gan dîm o dri dan arweinyddiaeth Scott i fewndir Antarctica i archwilio Victoria Land.

Ar ôl yr antur hon dychwelodd i Brydain, ac yn 1904 priododd Lois Beynon o Rosili, nith i'w fam. Aethant i fyw yn Portsmouth, lle cwblhaodd Evans raglen hyfforddiant i fod yn hyfforddwr gynyddiaeth. Ganwyd iddynt dri o blant, Muriel, Ralph a Norman. Ond ni allai Evans fodloni ar fywyd tawel; yn is-swyddog (dosbarth cyntaf) yn y llynges, roedd yn dal i ddyheu am antur. Gwahoddwyd ef i ymuno â chyrch trychinebus Scott, 'Terra Nova' yn 1910, a chafodd ganiatâd gan y llynges i fynd. Cychwynodd y cyrch o ddociau Caerdydd ym Mehefin 1910, ac roedd llawer o'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol wedi ei chodi oddi wrth wŷr busnes y ddinas honno. Ar ôl arhosiad yn Seland Newydd, bwriadodd y llong ymlaen am yr Antarctig yn Nhachwedd 1910. Yn gynnar yn 1911, sefydlwyd gweryll cychwyn ar lannau Antarctica. Tua diwedd y flwyddyn yn yr haf deheuol byr cychwynodd tîm o bump, wedi ei arwain gan Scott, mewn ymgeis i fod y cyntaf i gyrraedd Pegwn y De. Dewiswyd Edgar Evans yn aelod o'r tîm oherwydd ei gryfder a'i fedrau. Ef oedd yn gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd y ceir llusg, y pebyll, y sachau cysgu a'r harneisi.

Cymerodd y tîm un wythnos ar ddeg i gerdded i'r Pegwn, gan dynnu ceir llusg wedi eu llwytho â phebyll a bwydydd. Cyrhaeddasant ar eu ffordd yn ôl i'r lan, ond roedd y daith yn ôl o Begwn y De yn anodd iawn, gydag amodau tywydd echrhydus. Cafodd Edgar Evans nifer o ddamweiniau, gan gynnwys cwmp ar Rewlif Beardmore a achosodd anaf i'w ben. Dirywiodd ei gyflwr corfforol a meddyliol wrth i'r amgylchiadau fynd yn waeth byth ac wrth i'r cyflenwad bwyd ddod i ben. Ni allai fynd gyda'r lleill i ymofyn cyflenwadau a adawyd mewn man casglu. Pan ddaethant yn ôl roedd yn ddirifol wael, ac er cael ei gludo i gysgod pabell, bu farw wrth droed Rhewlif Beardmore ar 17 Chwefror 1912. Bwriadodd aelodau eraill y cyrch ymlaen, ond bu farw pob un o oerfel a newyn. Ni chafwyd fyth hyd i gorff Edgar Evans. Dyfarnwyd £1,500 i'w wraig a'i blant gan Bwyllgor yr Arglwydd Faer, a phensiwn blynyddol o £48 gan y Morlys.

Coffeir Edgar Evans gan blac ar Eglwys Rhosili, ac un arall ar oleudy coffa Scott yn llyn Parc y Rhath, Caerdydd. Enwyd Rhewlif Evans yn Victoria Land, Antarctica, ar ei ôl. Ym Medi 2014 dadorchuddiwyd plac i'w goffáu yn Abertawe.

Awdur

Lyn Owen

Ffynonellau

Isobel Williams, *Captain Scott's invaluable assistant: Edgar Evans* (Stroud 2012)

The Captain Scott Society: *Petty Officer (First Class) Edgar Evans RN (1876-1912)*

Amgueddfa Abertawe: *Edgar Evans - 90 Degrees South*

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: *Edgar Evans (fforiwr)*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 21409236

Wikidata: Q979325

Dyddiad cyhoeddi: 2021-04-01

Hawffraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>



Owen, L., (2021). EVANS, EDGAR (1876 - 1912), fforiwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 4 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-EVAN-EDG-1876>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn cael gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government